

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn archwilio'r defnydd o offer deallusrwydd artifisial (AI) cynhyrchiol fel ChatGPT, Google Bard, DALL-E-2 a Midjourney ac mae'n rhoi rhywfaint o arweiniad lefel uchel ar sut i'w defnyddio yng Ngholeg Penybont.

Mae'r offer hyn yn gallu cynhyrchu cynnwys ysgrifenedig a gweledol y gall dysgwyr ei ddefnyddio i gyfrannu at asesiadau, ond gellir hefyd ei ddefnyddio i wella effeithlonrwydd dysgu ac addysgu.

Yng Ngholeg Penybont, ni fyddwn yn gwahardd defnyddio'r offer hyn. Gan ei bod yn debygol iawn y bydd gweithleoedd proffesiynol ac academiaidd yn defnyddio AI yn y dyfodol, byddwn yn eich cefnogi chi a'n dysgwyr i'w ddefnyddio mewn modd effeithiol, moesegol a thryloyw.

Ar gyfer beth y gellir ei ddefnyddio?

Gall yr offer hyn eich cefnogi chi a'ch dysgwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r rhestrau isod yn dangos y mathau o gwestiynau a chyfarwyddiadau y gall ChatGPT eu trin. Fe'ch anogir i arbrofi gyda'r lleill i weld sut y gallant weithio i chi.

Gall dysgwyr ddefnyddio'r offer hyn i:	Gall tiwtoriaid ddefnyddio'r offer hyn i:
Drafftio syniadau, cynllunio neu strwythuro deunyddiau ysgrifenedig.	Cefnogi cynhyrchu cynlluniau gwersi, deciau sleidiau neu gynlluniau gwaith.
Cynhyrchu syniadau ar gyfer graffeg, delweddau a deunyddiau gweledol.	Cynhyrchu traethodau sampl sy'n amrywio o ran arddull ac ansawdd ar gyfer asesu cymheiriaid.
Cynhyrchu adborth awtomataidd ar eu gwaith.	Creu cwestiynau cwis amlddewis ar bwnc penodol.
Cefnogi sillafu, gramadeg a strwythur ysgrifennu.	Crynhoi pynciau ar ffurf pwyntiau bwled neu gardiau fflach.
Cael rhagor o wybodaeth am bwnc.	

Beth ddylem ni fod yn wylidwrs ohono?

- Cywirdeb**
Nid yw offer AI cynhyrchiol yn ffynonellau o wirionedd. Dylid cadarnhau cywirdeb bob amser.
- Preifatrwydd a diogelwch data**
Peidiwch â mewnbynnu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi nac unrhyw un arall i offer AI cynhyrchiol.
- Goblygiadau moesegol**
Mae'n bosibl y bydd gan bobl gyfyngiadau crefyddol neu ddiwylliannol ynghylch defnyddio deallusrwydd artifisial a gall y cynnwys fod yn rhagfarnllyd.
- Rhyngweithiad dynol**
Ni ddylai offer AI gymryd lle rhyngweithio dynol ystyrlon.

Beth yw camymddwyn?

Mae'r Polisi a Gweithdrefn Camymddwyn, Camweinyddu a Gwrthdaro Buddiannau yn nodi bod defnyddio deallusrwydd artifisial (AI), gan gynnwys Modelau Iaith Mawr (LLMs) fel ChatGPT-3, i gynhyrchu unrhyw ran o asesiad a gyflwynir wedyn fel gwaith gwreiddiol dysgwyr yn cael ei ystyried yn gamymddwyn.

Rhaid hysbysu'r Rheolwr Cwricwlwm a'r Tîm Ansawdd am unrhyw achosion o gamymddwyn amheus neu honedig cyn gynted â phosibl.

Rhybuddion:

Mae offer AI cynhyrchiol yn cynhyrchu testun newydd. Ni fydd gwirwyr llên-ladrad safonol fel Google's Originality Reports yn canfod cynnwys a gynhyrchir gan AI.

Mae offer yn bodoli sy'n honni eu bod yn canfod a yw cynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI ai peidio. Dangoswyd bod yr offer hyn yn gallu rhoi canlyniadau positif anghywir, ac mae modd eu hosgoi'n hawdd gan ddefnyddio offer eraill a all 'ddyneiddio' cynnwys a gynhyrchir gan AI. Anogir yn gryf i chi beidio â defnyddio'r offer hyn.

Rhaid i ddysgwyr gydnabod, disgrifio a chyfeirnodu'r defnydd o offer AI cynhyrchiol yn y gwaith y maent yn ei gyflwyno. Anogir tiwtoriaid i wneud yr un peth, a thrwy hynny wella tryloywder y dechnoleg yma. Mae enghraifft o sut i gydnabod defnyddio AI i'w gweld isod:

Cydnabyddiaeth:

Defnyddiwyd [ChatGPT](#) i gynhyrchu syniadau ar gyfer y ddogfen hon, ac addaswyd y syniadau hyn i greu adrannau [2](#) a [3](#).

Defnyddiwyd y promptiau canlynol:

- Sut gallai tiwtoriaid a dysgwyr ddefnyddio offer AI cynhyrchiol yn eu hastudiaethau?
- Beth ddylai coleg fod yn wiliadwrs ohono wrth ddefnyddio offer AI cynhyrchiol?

Dogfennau ategol a chyfeirnodau

University College London. (2023). *Engaging with AI in your education and assessment*. [ar-lein] Ar gael yn: [Engaging with AI in your education and assessment](#)

OpenAI. (2023). *ChatGPT*. Ar gael yn: <https://chat.openai.com/>

Polisi a Gweithdrefn Camymddwyn, Camweinyddu a Gwrthdaro Buddiannau

Y Cyd-Gyngor Cymwysterau. (2023). *AI Use in Assessments: Protecting the Integrity of Qualifications*. [ar-lein] Ar gael yn: [AI Use in Assessments: Protecting the Integrity of Qualifications](#)

Webb M. (2023). *Getting started with ChatGPT Part 1 - Understanding ChatGPT*. [ar-lein] Ar gael yn: [Getting started with ChatGPT](#)